Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Hafan Cymru – J096

Gorffennaf 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â’u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi’r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adrannau 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

https://gweddill.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/regframeworkhousingassoc/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynarch
Cyffordd Llandudno
LL32 8AZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-832-4
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Mae Hafan Cymru ("Hafan" neu "y Gymdeithas") yn gymdeithas dai elusennol gofrestredig a sefydlwyd yn 1989. Mae wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae gan y Gymdeithas 149 o wlâu. Mae'n berchen ar 96 o gartrefi ac yn rheoli tua 29 o gartrefi ar gyfer sefydliadau eraill. Mae Hafan Cymru yn gweithredu ar draws Cymru drwy nifer o brosiectau allweddol a darparu cymorth tai ac arbenigol gwasanaethau i fenywod, dynion, plant a theuluoedd ar draws 14 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2017/18** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 1.5% | 9.4% | dd/g | 20.1% |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | (2.9)% | 9.2% | dd/g | 8.1% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 12.5% | 5.9% | dd/g | 2.1% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | dd/g | dd/g | dd/g | 75% |
| Geriad | 17% | 18% | 45% | 61% |
| Sicrwydd llog i incwm gros o renti | 9,329% | 6,832% | 150% | dd/g |
| Mae rhagolygon y Gymdeithas yn dangos bod lefelau arian parod yn ddigonol i ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Gorffennaf 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau – Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol – Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.